# Centre Name Here

## Y weithdrefn gwacáu mewn argyfwng ar gyfer arholiadau

Wrth ymdrin ag argyfwng rhaid i chi fod yn ymwybodol o unrhyw gyfarwyddiadau gan asiantaethau lleol neu genedlaethol perthnasol.

Mewn argyfwng megis larwm tân neu rybudd am ddyfais ffrwydrol, rhaid i'r goruchwyliwr weithredu fel a ganlyn:

- gofyn i'r ymgeiswyr roi'r gorau i ysgrifennu;
- casglu'r gofrestr presenoldeb (er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr i gyd yn bresennol) a gwacáu'r ystafell arholiadau yn unol â chyfarwyddiadau'r awdurdod priodol;
- cynghori'r ymgeiswyr i adael yr holl bapurau cwestiynau a sgriptiau yn yr ystafell arholiadau. Rhaid cynghori ymgeiswyr i gau eu llyfryn ateb;
- sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gadael yr ystafell mewn tawelwch;
- sicrhau bod yr ymgeiswyr yn cael eu goruchwylio mor agos â phosibl tra byddant allan o'r ystafell arholiadau fel nad ydynt yn trafod yr arholiad o gwbl;
- gwneud nodyn o amser yr amhariad a'i hyd;
- caniatáu i'r ymgeiswyr gael gweddill yr amser gweithio a bennwyd ar gyfer yr arholiad unwaith y bydd yn gallu ailddechrau;
- os mai ychydig o ymgeiswyr yn unig sydd yna, ystyried y posibilrwydd o fynd â'r ymgeiswyr (a'r papurau cwestiynau a sgriptiau) i fan arall i orffen yr arholiad;

Rhaid i adroddiad llawn o'r digwyddiad gael ei lunio a'i gadw ar ffeil os oes angen gan gorff dyfarnu.

Rhaid rhoi gwybod i'r corff dyfarnu ar unwaith am unrhyw achos o dorri diogelwch papur neu gamymddygiad.

Rhaid cyflwyno cais ar-lein am ystyriaeth arbennig i'r corff dyfarnu perthnasol lle mae ymgeiswyr wedi bod dan anfantais.